Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd
CEDAR
Centre for Healthcare Evaluation, Device Assessment and Research

# Effaith llythrennedd iechyd ar ganfyddiad o offer grymuso cleifion ymhlith defnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd a staff

**Awduron: Dr Katherine E. Woolley, Dr Robert Letchford and Kathleen Withers**

## Cyflwyniad

Gofal sy'n canolbwyntio ar y person yw lle mae gofal iechyd yn cael ei bersonoli i anghenion unigol person. Dangoswyd ei fod yn gwella canlyniadau a phrofiad iechyd. Mae angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddeall lefel gwybodaeth, hyder a sgiliau person wrth reoli ei gyflwr iechyd er mwyn ei helpu i addasu'r gofal maen nhw'n ei ddarparu i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Gellir defnyddio offer, a elwir yn offer grymuso cleifion, i gynorthwyo'r broses hon. Mae'r offer yn aml yn dod ar ffurf holiadur byr. Mae'r astudiaeth hon yn ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar ganfyddiad o offer grymuso cleifion yng nghyd-destun llythrennedd iechyd.

## Dulliau

Recriwtiwyd cyfranogwyr o adrannau cleifion allanol ffisiotherapi a phodiatreg o un bwrdd iechyd yng Nghymru.

**Cyfweliadau**
Defnyddwyr gwasanaeth (dros 18 oed) (n=13)

**Grwpiau ffocws**
Ffisiotherapyddion a phodiatryddion (n=10)

Cynhaliwyd a recordiwyd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws ar Microsoft Teams, a'u trawsgrifio. Disgrifiwyd a chrynhowyd data ansoddol yn thematig gan ddefnyddio agweddau'r "penderfynyddion rhyngddibynnol ar lwyddiant gweithredu".

Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru
Welsh Value in Health Centre

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Astudiaeth PET

Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd
CEDAR
Centre for Healthcare Evaluation, Device Assessment and Research

## Canlyniadau: canfyddiadau'r claf

**Nodweddion yr offer:**

**Eglurder cwestiynau, geiriad ac opsiynau ateb:**

- Roedd yn well gan y cyfranogwyr offer byrrach, gyda chwestiynau uniongyrchol
- Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ffafrio opsiynau ateb gyda blychau ticio, gan eu bod yn hawdd ymateb iddynt ac yn edrych yn gliriach ar y dudalen.
- Adroddwyd bod geiriad cymhleth yn anodd ei gyfieithu i ieithoedd brodorol.

**Cynnwys:**

- Adroddodd y cyfranogwyr nad oedd yr offer yn benodol i'w salwch na'r gofal a dderbyniwyd.
- Roedd yn well ganddynt weld cwestiynau penodol, perthnasol a chysylltiedig.




**Dylanwadau ar lefel y claf: Canfyddiad o berthnasedd ac effaith ar ofal:**

- Ystyriwyd bod gallu’r offer i gasglu gwybodaeth yn werthfawr a gallai helpu i feithrin perthnasoedd rhwng cleifion a phroffesiynau gofal iechyd.
- Canfyddiad y gallai gofal gael ei leihau neu ei ohirio pe bai ganddynt sgôr cyfranogiad (activation score) uchel.

**Nid oedd yn ymddangos bod llythrennedd iechyd yn dylanwadu ar ganfyddiad a barn cleifion o'r offer.**

Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru
Welsh Value in Health Centre

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Astudiaeth PET

Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd
CEDAR
Centre for Healthcare Evaluation, Device Assessment and Research

# Canlyniadau: Canfyddiad gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

**Nodweddion yr offer:**

**Hygyrchedd ac ymgysylltu:**

- Roedd yn well ganddynt offer a brawddegau a oedd yn fyr ac yn gryno.
- Pryderon bod yr offer yn rhy gyffredinol.

**Priodoldeb clinigol:**

- Roeddent yn ffafrio geiriad sy’n cwmpasu model gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y person.
- Ystyriwyd y sgôr gyffredinol yn fuddiol, gyda chydnabyddiaeth bod angen cwestiynau unigol.

**Dylanwadau ar lefel gyfunol:**

**Hwyluswyr:**

- Casglu data electronig
- Cyfrifo sgôr cyffredinol yn awtomatig
- Cael diwylliant o ddefnydd a hyfforddiant

> “Sometimes it’s difficult getting the patients to engage, especially if there’s a long list of questions on the form”

> “Weithiau, rwy'n meddwl y gall geiriad pethau arwain at sgwrs llai defnyddiol. Os nad yw'n ein tynnu tuag at y cydweithrediad a'r cydbwysedd pŵer hwnnw rhwng y therapydd a'r claf”



**Rhwystrau:**

- Mae angen ymgyfarwyddo â llawer o wybodaeth
- Amser cyfyngedig mewn ymgynghoriadau
- Diffyg llwybrau lleol

Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru
Welsh Value in Health Centre

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Astudiaeth PET

Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd
CEDAR
Centre for Healthcare Evaluation, Device Assessment and Research

## Dehongliad

Adroddodd **defnyddwyr gwasanaeth** ar ba mor hawdd oedd yr offer i'w darllen a'u deall, hyd yr offer a'r cyd-destun y cawsant eu rhoi ynddo (h.y. ffisiotherapi neu bodiatreg), a pha mor berthnasol oedd hyn i'w gofal.

Adroddodd **aelodau staff** ar hygyrchedd a pherthnasedd clinigol yr offer a'r hwyluswyr (darparu gwybodaeth ddefnyddiol, effeithlonrwydd amser, dyrannu adnoddau) a'r rhwystrau (llwybrau gofal, hyfforddiant staff ac ymgysylltiad) o ran defnyddio offer grymuso cleifion mewn ymarfer arferol.

## Argymhellion

**Gweithredu:**

- Archwilio casglu data electronig a storio data
- Cael cynllun ar gyfer gwerthuso effaith a llwyddiant y gweithrediad
- Datblygu consensws cenedlaethol ar gyfer casglu data digidol yn rheolaidd
- Datblygu llwybrau clinigol, hyfforddiant a diwylliant cwblhau mewn gofal arferol

**Nodweddion yr offer**:

- Archwilio’r gallu i gyfieithu i'r Gymraeg
- Archwilio’r gallu i'w ddefnyddio fel offeryn sgrinio a goblygiadau'r dull hwn
- Darparu gwybodaeth ar sut i gwblhau'r offeryn a pham
- Cael caniatâd i newid y geiriad i sôn am weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn hytrach na meddyg.